OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 507 (Cy. 117)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Mawrth 2019* |

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 4(1) a (2), 4A, 15(3) ac 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Cymru) 2019 a daw i rym ar y diwrnod ymadael.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru, parth Cymru a chychod pysgota Cymreig lle bynnag y bônt.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "cwch pysgota Cymreig" ("*Welsh fishing boat*") yw cwch pysgota sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr a gedwir o dan adran 8 o Ddeddf Llongau Masnach 1995 ac y mae ei gofnod

(**1**) 1967 p.84 ("Deddf 1967"); amnewidiwyd adran 4 gan adran 3 o Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86) a'i diwygio gan adran 20 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adran 1 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1992 (p.60), adrannau 4, 196 a 197 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23) ac O.S. 1999/1820. Cynhwysir y diffiniadau o "relevant British fishing boat" a "foreign fishing boat" yn adran 4(12). Mewnosodwyd adran 4A gan adran 21 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 a'i diwygio gan adran 3 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1992, adran 6 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ac O.S. 1999/1820. Diwygiwyd adran 15 gan adran 22 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77), paragraff 38 o Atodlen 1 a Rhan II o Atodlen 2 iddi, adran 25 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, paragraff 15 o Atodlen 2 i Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976, adran 199 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Diwygiwyd adran 20 gan adran 21 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 ac adran 7 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1992.

(**2**) Cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adrannau 4, 4A a 15(3), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'u trosglwyddo wedyn o'r corff hwnnw i Weinidogion Cymru: gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999/672) ac Atodlen 1 iddi a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). I'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran parth Cymru, cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adrannau 4, 4A a 15(3) o Ddeddf 1967 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan erthygl 4(1)(b) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760) ar sail gydredol. Cafodd y swyddogaethau hynny eu trosglwyddo ymhellach, ar sail gydredol, o ran cychod pysgota Cymreig y tu hwnt i derfyn parth Cymru tua'r môr gan baragraff 2(1) o Atodlen 3A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

yn y gofrestr yn pennu porthladd yng Nghymru fel y porthladd y mae'n rhaid trin y cwch fel pe bai'n perthyn iddo;

ystyr "y gwaelodlinau" ("*the baselines*") yw'r gwaelodlinau a sefydlwyd gan Orchymyn y Môr Tiriogaethol (Gwaelodlinau) 2014(**3**);

ystyr "hyd" ("*length*") o ran cwch, yw'r hyd o'i gyfrif yn unol â'r rheolau a bennir yn Erthygl 2(1) o Reoliad (EU) 2017/1130 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diffinio nodweddion llestri pysgota;

ystyr "milltir" ("*mile*") yw milltir forol ryngwladol o 1,852 o fetrau; ac

mae i "parth Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "the Welsh zone" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006(**4**) (gweler adran 158(1) a (3) o'r Ddeddf honno).

**Gwahardd cychod pysgota Cymreig rhag pysgota heb drwydded ac eithriadau**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), gwaherddir cychod pysgota Cymreig (lle bynnag y bônt) rhag pysgota oni bai bod hynny wedi ei awdurdodi drwy drwydded a roddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw'r gwaharddiad ym mharagraff (1) yn gymwys—

(a) i bysgota am eogiaid neu frithyllod mudol;

(b) i bysgota gan unrhyw gwch a ddefnyddir yn gyfan gwbl er mwyn cludo pobl sy'n dymuno pysgota er pleser yn unig;

(c) i bysgota mewn dyfroedd sy'n gorwedd o fewn 12 milltir o'r gwaelodlinau y mesurir lled y môr tiriogaethol sy'n gyfagos i Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn eu trefn ohonynt, ond heb ymestyn y tu hwnt i linell y mae pob pwynt ar ei hyd yn gytbell o bwyntiau agosaf y gwaelodlinau hynny a'r gwaelodlinau cyfatebol sy'n gyfagos i'r Deyrnas Unedig a Ffrainc yn eu trefn;

(d) i bysgota am lyswennod cyffredin (*Anguilla anguilla*) gan unrhyw gwch nad yw'n fwy na 10 metr o hyd; neu

(e) i bysgota gan unrhyw gwch nad yw'n fwy na 10 metr o hyd ac nad oes ganddo injan i bweru'r cwch.

**Gwahardd cychod pysgota o Diriogaethau Dibynnol y Goron nad ydynt mewn perchnogaeth Brydeinig rhag pysgota ym mharth Cymru**

**4.**—(1) Gwaherddir cwch pysgota a gofrestrwyd o dan gyfraith Jersey, Guernsey neu Ynys Manaw ac nad yw mewn perchnogaeth Brydeinig rhag pysgota ym mharth Cymru oni bai bod hynny wedi ei awdurdodi drwy drwydded a roddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i bysgota—

(a) am eogiaid neu frithyllod mudol;

(b) am lyswennod cyffredin (*Anguilla anguilla*) gan gwch sy'n 10 metr o hyd neu lai;

(c) gan gwch sy'n 10 metr o hyd neu lai ac nad oes ganddo injan i bweru'r cwch;

(d) gan gwch a ddefnyddir yn gyfan gwbl er mwyn cludo pobl sy'n dymuno pysgota er pleser.

**Gwahardd cychod pysgota tramor rhag pysgota ym mharth Cymru**

**5.**—(1) Gwaherddir cwch pysgota tramor rhag pysgota ym mharth Cymru oni bai bod hynny wedi ei awdurdodi drwy drwydded a roddir gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2014/1353.
(**4**) 2006 p.32.

(2) Ym mharagraff(1), ystyr "cwch pysgota tramor" yw cwch pysgota—

(a) nad yw wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**5**),

(b) nad yw wedi gofrestru o dan gyfraith Jersey, Guernsey neu Ynys Manaw, ac

(c) nad yw mewn perchnogaeth Brydeinig(**6**).

**Dirymu**

**6.** I'r graddau y maent yn gymwys o ran cychod pysgota Cymreig, mae'r offerynnau a bennir yng ngholofn gyntaf yr Atodlen wedi eu dirymu i'r graddau a bennir yn nhrydedd golofn yr Atodlen.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2019

(**5**) 1995 p.21.
(**6**) Gweler adran 22(1) (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 38(c) o Atodlen 13 i Ddeddf Llongau Masnach 1995 (p.21) ac O.S. 1999/1820) am y diffiniad o "British-owned".

## ATODLEN

Erthygl 6

Dirymu

| ***Enw*** | ***Cyfeirnod*** | ***Graddau'r dirymu*** |
|---|---|---|
| Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr 1992[1] | O.S. 1992/2633 | I'r graddau mae'n gymwys o ran cychod pysgota Cymreig |
| Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Amrywio) 1993(**7**) | O.S. 1993/188 | I'r graddau mae'n gymwys o ran cychod pysgota Cymreig |
| Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Amrywio) (Rhif 2) 1993 | O.S. 1993/2291 | I'r graddau mae'n gymwys o ran cychod pysgota Cymreig |
| Gorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol O.S. 1999/1820) (Rhif 2) 1999 | O.S. 1999/1820 | Paragraff 150 o Atodlen 2 |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gydag eithriadau, mae'r Gorchymyn hwn yn gwahardd cychod pysgota Cymreig rhag pysgota (erthygl 3) a chychod o Diriogaethau Dibynnol y Goron rhag pysgota (erthygl 4) o fewn parth Cymru oni bai eu bod wedi eu trwyddedu gan Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn gwahardd cychod tramor rhag pysgota (erthygl 5) o fewn parth Cymru oni bai eu bod wedi eu trwyddedu felly.

Mae erthygl 6 o'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr 1992 (O.S. 1992/2633) ac offerynnau a amrywiodd neu a ddiwygiodd y Gorchymyn hwnnw i'r graddau y maent yn ymwneud â chychod pysgota Cymreig a physgota o fewn parth Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**7**) A amrywiwyd gan O.S. 1993/188 a 2291 ac a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1820.